# A fydd Cymru yn arwain y ffordd? Llythyr Agored at Brif Weinidog Cymru

Annwyl Mr Gething,

Hoffwn pe byddech chi'n dychmygu ystafell ddosbarth heb waliau, lle nad oes derfynnau a dim un person ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei adael ar ôl. Nid breuddwyd yw hon; ond yr hyn yr ydym ni, yn Outward Bound, ynghyd â'n ffrindiau a sefydliadau tebyg ar draws yr sector awyr agored yn ei wneud bob dydd. Ond ar hyn o bryd, mae hyn yn gyfle nad yw pawb yn ei gael. Rhaid i hyn newid.

Nawr yw'r amser i Gymru arwain y ffordd drwy adael i bob person ifanc fod yn rhan o'r antur hon.

Mae bywyd yn anodd i bobl ifanc y dyddiau hyn. Maen nhw'n tyfu i fyny mewn byd sy'n aml yn teimlo'n llethol, yn enwedig yn sgil y pandemig. Mae cymaint o bethau y mae'n rhaid iddynt ddygymod â nhw, megis pwysau arholiadau, atyniad cyson y cyfryngau cymdeithasol, a'r her o ddarganfod pwy ydyn nhw.

Mae addysg awyr agored yn fwy nag eitem ar y cwricwlwm yn unig. Gall addysg awyr agored fod yn achubiaeth i bobl ifanc, gan eu helpu i ddod yn eu blaenau mewn byd cynyddol gymhleth. Trwy wneud cyfnodau preswyl yn yr awyr agored yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru a gadael i'n plant fynd allan i'r awyr agored yn fwy aml, gallwn eu grymuso i gyflawni eu potensial mewn ffyrdd na ellir eu mesur yn ôl graddau'n unig – trwy waith tîm, gwydnwch, dewrder a thosturi.

Mae Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), a gynigiwyd gan Sam Rowlands AS, yn gyfle i wneud i hyn ddigwydd ac yn gyfle euraidd i bob person ifanc yng Nghymru. Mae'n gyfle trawsbleidiol a all osod y safon ar draws y DU a chreu momentwm pellach i Fesurau Liz Smith MSP (Aelod o Senedd Yr Alban) yn Holyrood a Tim Farron AS yn San Steffan. Dyma gyfle i feithrin hunan-gred pobl ifanc di-rif a'u helpu i dyfu'n oedolion a all wynebu heriau'n hyderus.

Dyna pam rydyn ni'n camu i'r adwy, ochr yn ochr â'n ffrindiau, i ddweud bod hyn yn bwysig – ac mae angen eich cefnogaeth chi arnom ni. Anogwn Aelodau'r Senedd i ystyried y gwahaniaeth y gallai'r Bil hwn ei wneud, nid yn unig ym maes addysg, ond i les unigolion a'r cymunedau yr ydym yn byw ynddynt. Anogwn rieni ac athrawon i ddychmygu'r potensial y gallai hyn ei ddatgloi. Gadewch i ni beidio â gadael iddo lithro trwy ein bysedd.

Bydd llawer sy'n darllen hwn yn dwyn i gof deimlad o antur wrth dreulio eu cyfnod preswyl cyntaf i ffwrdd o'r ysgol, y cartref, a'u man cysurus. Ond y gwir amdani yw nad yw pawb yn cael y cyfle hwn. Gadewch i ni sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael profiad o ystafell ddosbarth heb waliau. Oherwydd pan fyddwn ni'n gwneud hynny, nid eu dysgu i ganfod eu ffordd trwy'r gwylltiroedd yn unig y byddwn yn ei wneud; rydym yn eu helpu i ganfod eu ffordd trwy fywyd. Rydym yn eich annog yn daer i gefnogi'r Bil Addysg Preswyl yn yr Awyr Agored, os gwelwch yn dda.

Yr eiddoch yn gywir,

**Martin Davidson**

Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Outward Bound

**Yn cael ei gefnogi gan**

Ian Rylatt, Prif Weithredwr – Annington

Mark Castle OBE, Prif Weithredwr - Field Studies Council

Beverley Martin, Chief Commissioner – Girlguiding Cymru

Graham French, Cadeirydd Sefydliad Dysgu Awyr Agored Cymru ac AHOEC Gogledd Cymru

Jo Barnett, Prif Weithredwr – Institute for Outdoor Learning UK

John Watkins, Prif Weithredwr – Cymdeithas Tirweddau Cenedlaethol

Asa Gurden, Chair - Outdoor Advisory Board

Anthony Jones, Prif Weithredwr – PGL Beyond

Rachel Cilliers, Cyfarwyddwr y Ganolfan - Summit Centre a Cadeirydd Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru.

Kerrie Gemmill, Cyfarwyddwr - Scouts Cymru

Matt Hyde, Prif Weithredwr - Scouts UK

Christopher Green MBE, Cydlynydd – Ymddiriedolaeth Summer Camps

Ndidi Okezie, Prif Weithredwr - UK Youth

James Blake, Prif Weithredwr – YHA (England & Wales)